# Cyfrifon banc – Unigolion

Rhan o'n broses wirio o ran twyll a llywodraethu yw gofyn ichi yn y porth nodi manylion y cyfrif banc yr hoffech dderbyn eich grant ynddo a rhoi tystiolaeth am y cyfrif.

Rhaid cyflwyno'r wybodaeth cyn ichi gyflwyno cais.

Rhaid uwchlwytho'r dystiolaeth ar adeg nodi manylion y cyfrif banc. Felly rhaid cael y ddogfennaeth yn barod. Rhaid hefyd i'r dystiolaeth gyfateb â manylion y cyfrif banc.

Gallwch ychwanegu sawl cyfrif banc at eich proffil ar-lein. Ond rhaid inni weld tystiolaeth am bob un.

Ar ôl ychwanegu cyfrif at eich proffil, gallwch ei ddewis wedyn wrth gyflwyno cais.

Cysylltwch â ni: buddsoddiacariannu@celf.cymru os hoffech ddileu neu ddiweddaru tystiolaeth neu ychwanegu ati. Peidiwch â chreu sawl cofnod gyda'r un manylion.

Ni allwn eich talu nes inni ddilysu eich manylion banc ond gallwch chi gyflwyno eich cais cyn i hynny ddigwydd.

Inni allu dilysu eich tystiolaeth, rhaid iddi gynnwys:

- prawf bod y cyfrif yn eich enw cyfreithiol
- rhif y cyfrif
- y cod didoli
- cyfeiriad cartref deilydd y cyfrif banc (a rhaid iddo fod yng Nghymru a chyfateb â'r cyfeiriad a nodasoch yn ein porth).

Rhaid i'r dystiolaeth fod:

- yn y 6 mis diwethaf o ddyddiad y gwiriad
- yn dystiolaeth swyddogol gan y banc; rhaid darparu o bosibl sawl dogfen inni allu gweld y cysylltiad yn glir rhwng y dystiolaeth a'r cyfrif. Er enghraifft:
    - tudalen cyntaf datganiad banc a fydd fel arfer yn darparu'r manylion sydd eu hangen (mae modd eu hislwytho o fancio ar-lein fel arfer)

Fel arall:

- llythyr neu e-bost sy'n amlwg yn dod o'r banc i gadarnhau'r wybodaeth
- sgrinluniau ohonoch wedi mewngofnodi i'ch bancio ar-lein ac sy'n dangos eich enw, eich cyfeiriad a gwybodaeth eich cyfrif banc gyda'r dyddiad i'w weld
- ffotograffau o'r cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enw'r cyfrif, y rhif a'r cod didoli. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol am y cyfeiriad sy'n gysylltiedig â'r dystiolaeth. (Os nad yw'ch enw i'w weld ar y cerdyn, rhaid darparu rhagor o wybodaeth sy'n eich cysylltu â'r cyfrif).

Cofiwch:

- ni allwn dderbyn cyfrifon ar y cyd
- na chyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithredu gyda llyfr pas yn unig
- na thalu i mewn i gyfrifon ISA
- na derbyn llyfrau siec fel tystiolaeth.

## Cyfrifon busnes

- Dim ond rhai gyda'ch enw cyfreithiol yn rhan o enw'r cyfrif (er enghraifft, 'Dawns Gerwyn Williams') y gallwn eu derbyn.
- Ni allwn dderbyn cyfrif banc sydd ar gyfer cwmni cyfyngedig.
- Rhaid cael e-bost hefyd gan yr ymgeisydd grant sy'n nodi mai ef yw'r unig lofnodwr ar y cyfrif.
- Os oes unrhyw broblemau wrth ddilysu eich cyfrif, cysylltwn â chi'n syth. Efallai y gofynnwn am ragor o dystiolaeth.

Wrth ymgeisio am grant newydd yn ein porth, mae unrhyw gyfrif a ddilyswyd yn aros felly am 2 flynedd. Os hoffech ailddefnyddio'r cyfrif ar ôl 2 flynedd, rhaid ailgyflwyno tystiolaeth cyn dechrau ymgeisio.

Cysylltwch â ni: buddsoddiacariannu@celf.cymru gydag unrhyw gwestiynau.